

## Cydymdeimlad, Cofion a Llongyfarchion

Gyda thristwch y daeth y newydd am farwolaeth Mrs Mair Williams (Llansannan), un a fu'n flaenores ffyddlon a gweithgar yng Nghapel Tanyfron ers 1994.

Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â'i meibion ac â gweddill y teulu yn eu profedigaeth. Yn yr un modd, estynnwn ein cydymdeimlad ag Ann Williams (Henllan) a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth o golli ei mam, Doris Roberts.

Gweddïwn y byddwch yn adnabod Duw yn ei holl ddaioni yn cysgodi drosoch yn eich galar a'ch hiraeth am un y buoch mor fawr eich gofal drosti.

Anfonwn ein cofion at Richard M. Jones (Cefn Berain) yn dilyn ei lawdriniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd, a hefyd Dilys Jones (Nantgyn) sy'n parhau i gael gofal yn yr Inffirmari. Yr un yw'n cofion at Elwy Owen (Llanefydd) sydd wedi bod yn cael gofal yn Ysbyty Rhuthun yn dilyn ei lawdriniaeth ond sy'n gobeithio cael dod adref yn y dyddiau nesaf. Bu'n rhaid i Eurgain Pierce (Llanefydd) fynd yn ôl i'r ysbyty am ychydig ddyddiau hefyd ond mae'n dda deall ei bod yn well erbyn hyn. Mae eraill o'n plith sydd heb fod ar eu gorau yr wythnosau diwethaf – rhai wedi cael llawdriniaeth, ac eraill wedi cael triniaethau neu brofion gwahanol ond heb orfod aros dros nos yn yr ysbyty. Dymunwn wellhad buan iawn i bob un ohonoch. Hyderwn y byddwch yn cael eich gwarchod a'ch cynnal wrth i chi gryfhau dros y dyddiau a'r wythnosau nesaf hyn.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Arthur ac Ann Pierce (Cefn Meiriadog) ar achlysur dathlu 60 mlynedd o fywyd priodasol.

### Gofal Dydd Waengoleugoed

Fe gofiwch i ni wneud casgliad dros y Nadolig ac yn ystod mis Ionawr tuag at waith Gofal Dydd Waengoleugoed. Yn ogystal â'r cyfraniadau a wnaed yn uniongyrchol gan rai o'r eglwysi unigol, mae cyfanswm o £700 wedi ei gasglu gan yr Ofalaeth. Derbyniwyd neges gan Dr Mari Lloyd Williams yn dweud eu bod yn gwir werthfawrogi'r cyfraniad, yn enwedig gan nad ydynt wedi gallu cynnal gweithgareddau i godi arian dros y cyfnod cythryblus diwethaf. Diolchwn ninnau am eich cefnogaeth a'ch haelioni unwaith eto, ac am y gwasanaeth arbennig hwn lle mae amryw o aelodau'r Ofalaeth a'r gymuned ehangach yn derbyn gofal a chefnogaeth amhrisiadwy.

### Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📱 07814 660291

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📱 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (9<sup>fed</sup>), os gwelwch yn dda.

# Llais Bro Aled

Dydd Sul, 27 Chwefror 2022

[eglwysibroaled.com](http://eglwysibroaled.com)

[rhaglendorcas.com](http://rhaglendorcas.com)

[llanw.org](http://llanw.org)

Drycin, tymestl, storm. Dudley, Eunice a Franklin. Beth bynnag yw'r gair a ddefnyddiwyd i'w disgrifio, dwi'n siŵr eich bod fel finnau wedi cael llond bol ar y tywydd garw diweddar. Gobeithio na fu gormod o ddinistr yn eu sgil, a'ch bod wedi llwyddo i gadw'n ddiogel trwy'r cyfan. Cafwyd rhybuddion niferus ac amrywiol eu lliwiau am y posibilrwydd o lifogydd a difrod i adeiladau, ond faint o sylw a roesocho i'r rhybuddion hyn tybed? Mi wnes i gadw'r biniau ailgylchu dan do yn y sied ddiwedd yr wythnos, cyn eu tynnu allan fore Llun dim ond i'w gweld yn hedfan o gwmpas yr ardd! Mor hawdd yw ymateb i rybudd am ychydig, ac yna anghofio'r cyfan amdano ymhen dim o dro.

A phan drown at y Beibl, gwelwn mor aml y mae'r Arglwydd yn Ei ras a'i gariad yn rhybuddio'i bobl rhag y temtasiynau sy'n peri i'r ddynoliaeth grwydro oddi wrth eu Creawdwr, a'r pechodau sy'n arwain at boen, anghydfod ac anobaith. Yn yr un modd yn yr Efyngylau gwelwn y Gwarddwr yn rhybuddio'i ddisgyblion, gan eu paratoi ar gyfer gwahanol heriau. Meddyliwch er enghraifft am y geiriau hyn, pan anfonodd Iesu 72 o'i ddisgyblion allan i weinidogaethu:

*"Y mae'r cynhaeaf yn fawr ond y gweithwyr yn brin; deisyfwch felly ar arglwydd y cynhaeaf i anfon gweithwyr i'w gynhaeaf. Ewch; dyma fi'n eich anfon allan fel ŵyn i blith bleiddiaid. Peidiwch â chario na phwrs na chod na sandalau, a pheidiwch â chyfarach neb ar y ffordd."* (Luc 10:2-4)

Mae Iesu'n cynnwys rhybudd o'r hyn oedd o'u blaenau, ond gydag arwydd clir o'r hyn fyddai'n gymorth ac yn gynhaliath iddynt ar y daith. Maent i ddiwynnu'n llwyr ar yr Arglwydd, nid ar eu gallu na'u hadnoddau eu hunain. Ac er mai cyngor penodol i bobl oedd yn gwrando ar Iesu ddwy fil o flynyddoedd yn ôl yw hyn, mae gwersi allweddol i Gristnogion pob oes yma hefyd. Nid yw'r Arglwydd yn celu'r ffaith y daw dioddefaint, siom a phrofedigaethau i'n rhan fel Ei ddisgyblion. Ond mae Duw yn darparu'r hyn sydd ei angen i'n nerthu a'n harwain trwy'r cyfan. Rhoddodd ei Fab i fod yn aberth yn ein lle, fel bod pris ein heddwch tragwyddol wedi'i dalu ar Groes Calfaria (Eseia 53:5). Ac wrth i ni ddilyn Iesu wedi i ni edifarhau a rhoi'n ffydd ynddo, derbyniwn yr Ysbryd Glân yn flaenffrwyth o'r hyn a gawn brofi am byth, ac i'n galluogi i fyw'r bywyd o weithredoedd da 'y mae Duw wedi ei drefnu i ni o'r dechrau.' (Effesiaid 2:10)

Rhodri

## Cyhoeddiadau'r Fro

Gair i'ch atgoffa bod rhaid i bawb gydymffurfio â chanllawiau COVID ac i ddilyn y canllawiau sydd mewn lle ymhob capel i sicrhau diogelwch pawb fydd yno. Ni ddylai unrhyw un fynychu'r addoliad sydd unai yn dioddef hefo'r feirws neu ag unrhyw un o'r symptomau, neu sydd i fod i ynysu ar adeg yr addoliad, a gofynnir yn garedig i'r holl fynychwyr ddod â mygydau a'u gwisgo y tu mewn i'r adeilad, os gwelwch yn dda.

### Dydd Sul, Chwefror 27<sup>ain</sup>

- **Oedfa yn Llanfair am 9:30 ac yn Llansannan am 11:00** o dan arweiniad y Parch. David Owens.
- **Oedfa Deuluol yn Llanefydd am 9:30** o dan arweiniad Rhodri.
- **Ysgol Sul am 10:00 ac Oedfa yn Henllan am 11:00** o dan arweiniad Rhodri.
- **Oedfa 'Dydd Gweddi'r Byd' yn Saron am 10:00.**
- **Ni fydd oedfa yn Nantglyn.**
- **'Gwreiddiau'** – Mae gwahoddiad i ni ymuno gyda Bro Dinbych ar gyfer amser o addoliad yng Nghanolfan Eirianfa, Dinbych am 3:00 y prynhawn. Mae'n addas i bob oed, ac mae darpariaeth dwyieithog. Archebwch le trwy glicio ar y ddolen [yma](#) neu cysylltwch â Mair.

### Nos Lun, Chwefror 28<sup>ain</sup> a Pnawn Gwener, Mawrth 4<sup>ydd</sup>

- **'Gweddi'r Arglwydd'** – Y trydydd sesiwn mewn cyfres o bump astudiaeth Feiblaidd o dan arweiniad gweithwyr Dorcas. Gellir ymuno (ar ZOOM) naill ai ar nos Lun am 7:00 yr hwyr neu ar brynhawn Gwener am 1:30. (Manylion mewngofnodi: <https://us02web.zoom.us/j/83243383071> neu deialwch 0208 080 6592 i ymuno ar y ffôn. Meeting ID: 832 4338 3071) Trefnir gan Is-bwyllgor Chwiorydd EBC.

### Nos Iau, Mawrth 3<sup>ydd</sup>

- **Oedfa 'Dydd Gweddi'r Byd' yn Llansannan am 7:30.**

### Dydd Sul, Mawrth 6<sup>ed</sup>

- **Oedfa yn Llansannan am 10:00** o dan arweiniad Mr Dafydd Timothy ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg.
- **Oedfa 'Dydd Gweddi'r Byd' yn Llanfair am 10:00 ac yng Nghefn Meiriadog am 10:30.**
- **Oedfa 'Dydd Gweddi'r Byd' yn Llanefydd a Chefn Berain am 10:00.**
- **Gwasanaeth Gŵyl Ddewi (Undebol) yng Nghapel Henllan am 2:00.**
- **Oedfa yn Saron am 10:00 ac yn Nantglyn am 2:00** o dan arweiniad Rhodri.
- **Oedfa'r Fro yn Llansannan am 6:00** gyda Rhodri yn pregethu. Er mwyn hwyluso'r trefniadau, gofynnwn i chi roi eich enwau i Mair (manylion cysylltu ar y dudalen gefn) erbyn y nos Wener blaenorol, os gwelwch yn dda.

### Dydd Sul, Mawrth 13<sup>eg</sup>

- **Oedfa yng Nghefn Meiriadog am 9:30** o dan arweiniad Rhodri.
- **Cyfarfod Gweddi yn Llansannan am 10:00.**
- **Oedfa yng Nghefn Berain am 9:30 ac yn Groes am 11:00** o dan arweiniad Mr Gwion Dafydd. Bydd Ysgol Sul yn Llanefydd am 10:30.
- **Oedfa yn Saron am 10:00 ac yn Nantglyn am 2:00** o dan arweiniad y Parch. Trefor Lewis.
- **'Gwreiddiau'** – Mae gwahoddiad i ni ymuno gyda Bro Dinbych ar gyfer amser o addoliad yng Nghanolfan Eirianfa, Dinbych am 3:00 y prynhawn. Mae'n addas i bob oed, ac mae darpariaeth dwyieithog. I archebu lle, bydd mwy o fanylion yn y rhifyn nesaf.

### I ddod

- **Ysgol Haf y Weinidogaeth Iacháu** (23-26 Mai 2022) yng Nghanolfan Cefn Lea, Dolfor, Y Drenewydd, Powys, SY16 4AJ. Ni sicrhair lle oni fydd y tâl llawn gan Nerys Rowlands, Ysgrifenyddes y Weinidogaeth Iacháu **erbyn Ebrill 24ain**. Os hoffech fynychu'r Ysgol Haf eleni, cysylltwch â Mair i gael copi o'r rhaglen a ffurflen gofrestru. (Mwy o fanylion yn y rhifyn diwethaf o Llais Bro Aled 13 Chwefror 2022.)